



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad o System Diogelu Iechyd Cymru

Diweddariad mis Ebrill 2024

Pob ymholiad drwy

HPAG.Ysgrifenyddiaeth@llyw.cymru

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad..... | 3 |
| Strwythur a'r Gweithlu..... | 3 |
| Iechyd a Lles..... | 5 |
| Trefniadau llywodraethu..... | 6 |
| Cynlluniau Parodrwydd ac Ymateb..... | 8 |
| Cydweithredu a chyfathrebu | 9 |
| Data..... | 10 |
| Gwylidwriaeth a sganio'r gorwel | 12 |
| Y camau nesaf..... | 14 |
| Atodiad A - Diweddariad i'r Cynllun Cyflawni a Gweithredu | 15 |

Cyflwyniad

1. Yn ystod yr hydref 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol i asesu cryfderau System Diogelu Iechyd Cymru (y System) bresennol yn erbyn meincnod sydd eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer system sy'n perfformio'n dda. Nod yr adolygiad oedd darparu argymhellion rhesymol y gellir eu gweithredu ar y ffyrdd y gellid cryfhau'r System ymhellach er mwyn bodloni'r meincnod sefydledig, neu ragori arno¹.
2. Roedd yr [Adolygiad o System Diogelu Iechyd Cymru](#) ("yr Adolygiad") yn cynnwys cyfweiliadau a holiaduron gyda phartneriaid a rhanddeiliaid o bob rhan o'r System yng Nghymru. Fe'i cyhoeddwyd ar 7 Chwefror 2023 ynghyd â [Chynllun Gweithredu](#), a oedd yn disgrifio cynlluniau i fynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad. Roedd yr argymhellion yn dangos cymhlethdod, integreiddiad a rhyngddibyniaeth elfennau gwahanol o'r System yng Nghymru.
3. Dechreuodd cyfnod pontio i drefniadau newydd yn ystod 23/24 ledled y system Diogelu Iechyd, yn dilyn gostyngiad yn yr adnoddau a gafodd eu sefydlu a'u darparu yn ystod y pandemig yn unol â chynlluniau pontio. Mae gweithredu argymhellion yr Adolygiad yn broses barhaus wrth i ni barhau i ddysgu gwersi o bandemig Covid-19 a datblygu system gynaliadwy ar ôl y pandemig. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad cryno ar gynnydd ym mis Ebrill 2024. Mae Atodiad A yn nodi'r cynnydd yn erbyn pob argymhelliad penodol yn yr Adolygiad.
4. Roedd trefniadau ar wahân yn bodoli ar gyfer brechu yn ystod Covid-19, a chwblhawyd proses ar wahân ar gyfer gwersi a ddysgwyd gan ymgysylltu â llawer o asiantaethau, gan arwain at gyhoeddi [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU](#) yn Hydref 2022. Felly nid oedd trefniadau brechu'n rhan o gwmpas yr Adolygiad. Fodd bynnag, mae gwireddu disgwyliadau ar gyfer ein system frechu a amlinellir yn y Fframwaith Imiwneiddio yn elfen graidd o'n dull o ddiogelu iechyd yng Nghymru. Felly, mae'r diweddariad hwn yn myfyrio ar gynnydd wrth roi'r Fframwaith ar waith hefyd.

Strwythur a'r Gweithlu

5. Roedd yr Adolygiad yn cydnabod cryfder yr ymateb i'r pandemig yng Nghymru, a oedd yn adeiladu ar strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Roedd yn cydnabod yr angen, ar ôl y pandemig, i barhau i ddod â phartneriaid ehangach y system at ei gilydd i gynnal capasiti ymateb iechyd y cyhoedd cynaliadwy ac integredig sy'n gallu addasu yn unol â'r anghenion. Hefyd, nododd yr Adolygiad fod y penderfyniad i gyflogi staff yn lleol drwy'r sector

¹Datblygwyd y meincnod o'r arferion gorau a amlinellwyd yn y Fframwaith ar gyfer Creu a Datblygu Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gan Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol [www.ianphi.org/ includes/documents/sections/tools-resources/all-frameworks/frameworkfornphi.pdf](http://www.ianphi.org/includes/documents/sections/tools-resources/all-frameworks/frameworkfornphi.pdf)

cyhoeddus yn ystod y pandemig wedi caniatáu hyblygrwydd ar draws y system a'r gallu i gynyddu neu gwtogi'r gwasanaeth yn ôl y galw. Roedd yn argymhell cadw gwydnwch lleol ar gyfer diogelu iechyd yn wyneb pob perygl gyda chymorth arbenigwyr diogelu iechyd, labordai iechyd cyhoeddus ac epidemiolegwyr maes.

6. Roedd 2023/24 yn flwyddyn bontio tuag at fodel mwy ystwyth a chynaliadwy o ddiogelu iechyd yn wyneb pob perygl. Wrth i'r adnoddau a ddatblygwyd ac a gynhaliwyd i ymateb i gyfnod gwaethaf y pandemig gael eu lleihau, bu'r byrddau iechyd yn gweithio gyda'u partneriaid awdurdodau lleol yn rhanbarthol i sefydlu gwasanaeth integredig er mwyn cefnogi mesurau diogelu iechyd cynaliadwy ar sail dull gweithredu 'pob perygl'. Mae dull cadarn o weithio mewn partneriaeth yn parhau rhwng gwasanaethau diogelu iechyd ac iechyd yr amgylchedd (diogelu'r cyhoedd) mewn awdurdodau lleol. Mewn sawl ardal yng Nghymru, mae'r swyddogaeth diogelu iechyd integredig ranbarthol yn cynnwys staff o'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol.
7. Datblygwyd Egwyddorion Craidd i arwain y swyddogaeth diogelu iechyd ranbarthol gan gynnwys yr angen i dimau sefydlu cynlluniau parodrwydd er mwyn cynyddu darpariaeth yn wyneb bygythiad yn y dyfodol; ymateb i reoli clefydau arferol; cyflwyno Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru; a sicrhau cynnydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau atal, profi a thrin er mwyn cyrraedd targedau dileu clefydau ar gyfer TB, Hepatitis B ac C a HIV. Yn ogystal â gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19, mae'r gwasanaeth diogelu iechyd lleol wedi ymroi i ymateb i fesurau diogelu iechyd ehangach, a'u cefnogi, mewn meysydd allweddol fel cyflwyno Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru ac ymateb i achosion o glefydau trosglwyddadwy.
8. Nododd Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru werth a phwysigrwydd datblygu gweithlu cynaliadwy â sgiliau cymysg i hwyluso timau brechu ystwyth a gwydn mewn byrddau iechyd, fel rhan o'r gwaith diogelu iechyd integredig. Hefyd, mae gweithgarwch ar y gweill gyda gwledydd eraill y DU i gwmpasu'r newidiadau deddfwriaethol ledled y DU y bydd eu hangen i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sy'n deillio o fodel gweithlu sgiliau cymysg, gan ddysgu o'r hyn a weithiodd yn dda yn ystod argyfwng Covid-19, ac adeiladu arno.
9. Yn ogystal â mynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad, mae achosion diweddar o glefydau trosglwyddadwy fel brech M, streptococws a'r frech goch wedi tanlinellu pwysigrwydd darparu gwasanaethau diogelu iechyd a brechu rhanbarthol cadarn sy'n gallu ymateb i fygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. O 2024/25 ymlaen, dyrennir cyllid rheolaidd sylfaenol i GIG Cymru er mwyn parhau i ddatblygu a chefnogi gweithlu diogelu iechyd parhaol a medrus. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen yn ein huchelgais i greu gwasanaeth diogelu iechyd mwy ystwyth a chynaliadwy sy'n gallu atal, paratoi ac ymateb i fygythiadau i iechyd y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol. Hefyd, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn tîm olrhain cysylltiadau cenedlaethol bach, medrus a phrofiadol

i gefnogi gwaith cenedlaethol parhaus, ac mae'r tîm hwn yn gallu cynyddu'n gyflym os yw amgylchiadau'n gofyn am hynny. Mae hyn yn datblygu ac yn ategu Gwasanaeth Ymateb Acíwt Cymru Gyfan presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru a elwir yn AWARE, sy'n derbyn yr holl adroddiadau am glefydau hysbysadwy yn ystod oriau gwaith arferol.

10. Argymhellodd yr Adolygiad y dylid ystyried defnyddio'r sector gwirfoddol a myfyrwyr fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu ar gyfer parodrwydd yn y dyfodol. Bydd gwaith i benderfynu cyfraniadau posibl y sector gwirfoddol yn cael ei archwilio drwy brosesau atal, cynllunio parodrwydd ac ymarferion pob perygl a gynlluniwyd ar gyfer 2024.
11. Yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain rhaglen Pedair Gwlad yn ymwneud â'r gweithlu diogelu iechyd, sydd â'r dasg o ddatblygu cynllun gwaith priodol i lywio cyfeiriad a blaenoriaethau strategol ar gyfer cryfhau'r gweithlu diogelu iechyd yn y dyfodol. Mae ymarferiad mapio a dogfen gryno wedi'u creu ar gyfer Cymru sy'n amlinellu'r sgiliau, y safonau a'r adnoddau sydd eisoes ar waith, meysydd arferion gorau, llwybrau gyrfa presennol, bylchau/cyfleoedd, a gwybodaeth am ddata'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio trafodaethau manwl ar anghenion penodol y gweithlu diogelu iechyd yng Nghymru.

Iechyd a Lles

12. Mae dull gweithredu cadarn ar gyfer iechyd y cyhoedd yn allweddol i gymdeithas iach; bydd pobl iachach yn llai agored i ddal clefydau heintus a chlefydau nad ydynt yn heintus, gan gynnwys y rhai y gellir eu hatal trwy frechlyn, fel y frech goch. Nododd yr Adolygiad fod angen sicrhau nad yw ôl-groniadau mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn dilyn y pandemig yn arwain at ddirywiad yn iechyd a lles y cyhoedd.
13. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, [Cymru Iachach](#) yn cefnogi hyn. Mae'n amlinellu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i 'weithredu ar sail system gyfan' ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n darparu gwasanaethau di-dor sy'n parhau i ganolbwyntio ar waith atal a gofal yn y gymuned, gan osgoi anfon pobl i'r ysbyty yn ddiangen. Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd ar yr heriau y bydd y GIG yng Nghymru](#) yn eu hwynebu dros y deng mlynedd nesaf. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau i ganolbwyntio ar atal a gofal yn y gymuned. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu adolygiad o gamau gweithredu Cymru Iachach i sicrhau bod y strategaeth yn parhau'n gyfoes ac yn parhau i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.

14. Cyhoeddwyd y [Cynllun Adfer Gofal a Gynlluniwyd](#) ym mis Ebrill 2022, ac mae'n cynnwys ymrwymiad clir i leihau arosiadau hir yn sgil y pandemig. Mae'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd a Gweithrediaeth y GIG yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i gefnogi a herio'r agenda hon er mwyn hwyluso'r trawsnewidiad sydd ei angen i leihau'r ôl-groniad ymhellach.
15. Dywedodd yr Adolygiad fod angen adolygu sut mae cymorth yn cael ei ddarparu i gartrefi gofal cofrestredig ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae llawer o wasanaethau diogelu iechyd lleol wedi gweithio'n rhagweithiol gyda chartrefi gofal i ddarparu cymorth ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Mae hyn yn cynnwys sefydlu archwiliadau, monitro camau gweithredu/argymhellion dilynol a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i ganllawiau. Mae hyn yn golygu bod modd canfod problemau a lliniaru risgiau er mwyn atal a rheoli heintiau i leihau trosglwyddo heintiau.
16. Un o egwyddorion pwysig y gwasanaeth diogelu iechyd lleol yw gofyniad i gydweithio yn lleol ac yn genedlaethol i gynorthwyo a chwblhau gwaith i fynd i'r afael â mynediad a chyfleoedd teg. Argymhellodd yr Adolygiad y dylid casglu data ar y boblogaeth er mwyn monitro anghydraddoldebau fel mater o drefn, a chynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Cefnogir hyn gan y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd ar gyfer cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan afiechyd a chyflyrau penodol. Mae byrddau iechyd naill ai wedi cyhoeddi, neu'n gweithio tuag at gyhoeddi, strategaeth brechu teg, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith.
17. Mae Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG, a sefydlwyd yn 2022, yn parhau i sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae gwaith y grŵp yn cynnwys adolygu setiau data a gweithredu i ymateb i fylchau, gyda'r nod o gryfhau'r broses o gasglu data ar anghydraddoldebau a sicrhau bod data manylach ar gael yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig er mwyn llywio camau gweithredu polisi.
18. Mae gan yr Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol raglen waith i ddeall anghydraddoldebau'n well er mwyn gwella polisiâu iechyd a gofal ledled Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brosiect Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) a Chost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru (CHEW).

Trefniadau llywodraethu

19. Pwysleisiodd yr Adolygiad yr angen parhaus am drefniadau llywodraethu er mwyn helpu i sicrhau bod cysylltiadau a phrosesau cydweithio'n parhau i gael

eu diogelu ar gyfer ein parodrwydd a'n hymateb i fygythiadau a risgiau yn y system.

Ar lefel y DU, mae trefniadau llywodraethu ar ôl y pandemig yn cynnwys Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU / Bwrdd Llywodraethau Datganoledig newydd, sydd wedi'i sefydlu i drafod cyfleoedd strategol ar gyfer gwella cydweithio rhwng y pedair gwlad. Mae hyn yn cyd-fynd â'r strwythur a'r trefniadau llywodraethu ffurfiol a sefydlwyd o dan y Fframwaith Cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd a gafodd ei ddatblygu a'i gytuno ar y cyd rhwng llywodraethau'r DU ac asiantaethau iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Mae'n cefnogi camau cydweithredu ar faterion sy'n gofyn am dulliau gweithredu ledled y DU, yn ogystal ag ar faterion datganoledig lle mae rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn fanteisiol. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen waith yn cynnwys naw blaenoriaeth allweddol ledled y Pedair Gwlad; mabwysiadu dull cyson a chymesur o reoli clefydau hysbysadwy, iechyd trawsffiniol, y gweithlu diogelu iechyd, parodrwydd ar gyfer argyfwng, gwytnwch ac ymateb, iechyd cyhoeddus amgylcheddol, platfformau data/gwylidwriaeth rhyngwladol, cydweithrediad y pedair gwlad ar waith dilyniannu genomau cyfan, gweithgorau a llywodraethu'r pedair gwlad, a chyfrifiad ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth pob un o'r pedair gwlad.

20. Dangosodd pandemig Covid-19 yr her sy'n wynebu gwledydd wrth ddatblygu a chaffael brechlynnau yn gyflym mewn argyfwng. Yn dilyn y cytundeb Partneriaeth Strategol 10 mlynedd rhwng Moderna a Llywodraeth y DU ar ddiwedd 2022, mae ymgysylltiad wedi cynnwys Llywodraethau Datganoledig a phartneriaid ledled GIG a byd academiaidd y DU. Bydd Moderna'n buddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu mRNA yn y DU ac yn adeiladu canolfan cynhyrchu brechlynnau o'r radd flaenaf sy'n gallu cynhyrchu hyd at 250 miliwn o frechlynnau bob blwyddyn. Bydd brechlynnau ar gael mewn sefyllfa sefydlog ac yn ystod pandemig, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i isafswm cyfaint blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei chynrychioli ar fwrdd y rhaglen MSP ac mae'n cymryd rhan yn ffrydiau gwaith amrywiol y rhaglen. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i oruchwylio a chydgyssylltu buddiannau Cymru yn y Bartneriaeth.
21. Hefyd, rydym yn ymgysylltu'n agos ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ar gyflwyno'r Genhadaeth 100 Diwrnod, sy'n fenter i baratoi'r byd yn well ar gyfer y pandemig nesaf trwy fynd ati mewn ffordd ragataliol a rhagweithiol i sbarduno datblygiad diagnosteg, therapiwteg a brechlynnau (DTVs) er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn gyflym o fewn y 100 diwrnod cyntaf i nodi bygythiad pandemig yn y dyfodol.
22. Yng Nghymru, yn dilyn adolygiad llywodraethu Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd (HPAG) y Prif Swyddog Meddygol yn 2023 i nodi cyfleoedd i wella prosesau integreiddio, cynllunio a chyflawni, mae tri is-grŵp strategol yn adrodd i HPAG bellach: Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol; Clefydau Trosglwyddadwy;

ac lechyd Cyfunol – gan gydnabod yr angen strategol am ymgysylltiad agosach rhwng iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion o dan ein dull gweithredu pob perygl. Mae'r trefniadau diwygiedig yn sicrhau bod y Prif Swyddog Meddygol ac aelodau o HPAG yn goruchwyllo gweithgareddau a risgiau allweddol, ynghyd â chynghor perthnasol gan randdeiliaid allweddol yn y system, a dulliau atebolrwydd cadarn ar gyfer sicrwydd. Yn ogystal, mae proses monitro ac adrodd chwarterol ar y gwaith o gyflawni yn erbyn yr Egwyddorion Craidd wedi'i hymgorffori yn ein trefniadau llywodraethu bellach, sy'n darparu sicrwydd o gyflawni ar lefel ranbarthol gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol.

23. Er mwyn cydnabod y cwmpas eang o gyfrifoldeb a chydgyssylltu sydd ei angen i baratoi ar gyfer bygythiad o bandemig yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Pandemig i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu fframwaith parodrwydd ar gyfer pandemig. Bydd y Bwrdd yn ystyried gwersi sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19, yn ogystal â gwersi a nodwyd eisoes ac ymgysylltiad ehangach â phartneriaid allweddol.
24. Ers cynnal yr Adolygiad, mae Gweithrediaeth y GIG wedi'i sefydlu. Datganiad gwerth craidd y Weithrediaeth yw ysgogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal – gan arwain at ganlyniadau gwell a thecach, mynediad a phrofiad cleifion gwell a thecach, llai o amrywiadau a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth. Mae Rhaglen Frechu Cymru (VPW) wedi'i lleoli o fewn Gweithrediaeth y GIG erbyn hyn er mwyn helpu i gynllunio a chyflwyno rhaglenni brechu, ysgogi gwelliannau o ran nifer y bobl sy'n cael eu brechu a lleihau bylchau mewn tegwch brechu, a rheoli'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol. Ar ôl 1 Ebrill 2024, bydd swyddogaeth cynllunio brys o fewn y Weithrediaeth yn darparu ffocws cenedlaethol ar gyfer cydgysylltu trefniadau GIG Cymru ar gyfer argyfyngau posibl, gan fonitro a sicrhau gweithgareddau parodrwydd ar gyfer argyfwng.

Cynlluniau Parodrwydd ac Ymateb

25. Roedd yr Adolygiad yn cydnabod bod rolau unigol a sefydliadol wedi'u hymestyn fel rhan o'r ymateb brys i Covid-19, ac roedd yn argymhell darparu eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau wrth i'r System ddod allan o'r pandemig. Hefyd, nododd fod angen ailasesu cynlluniau presennol ar gyfer argyfwng iechyd y cyhoedd gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben, gan gydnabod y cyd-ddibyniaethau rhwng asiantaethau.
26. Mae'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glifydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ("Cynllun Rheoli Achosion") yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy sydd â goblygiadau iechyd y cyhoedd. Yn ystod 2023/24, fe wnaeth lechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio â phartneriaid allweddol ledled y System i adolygu a diweddarau'r cynllun yn drylwyr, gan sicrhau ei fod yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae'r Cynllun Rheoli

Achosion yn cyd-fynd â Chynllun Ymateb Cymru Gyfan sy'n amlinellu trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Achosion diwygiedig ym mis Ionawr 2024 a chynhaliwyd ymarferiad i ddilysu'r cynllun ar 19 Mawrth 2024. Adolygir yr hyn a ddysgwyd o'r ymarferiad, a bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio argymhellion y gellir eu gweithredu.

27. Cafodd [Canllawiau Rheoli Risgiau Iechyd y Cyhoedd Cymru o Ddigwyddiadau Amgylcheddol](#) eu hadolygu a'u diweddarau ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r ddogfen hon yn hwyluso prosesau cydgysylltu'r ymateb i ddiogelu iechyd y cyhoedd ar gyfer digwyddiadau amgylcheddol ar raddfa fach. Mae'n amlinellu sut i reoli digwyddiadau bach neu leol gan ddefnyddio dull Tîm Rheoli Digwyddiadau, sy'n gallu bod yn berthnasol i gamau cynnar digwyddiadau difrifol posibl. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi amlasiantaeth ym mis Mawrth 2024 a oedd yn gyfle i bartneriaid y system ddysgu am y canllawiau a rhoi cynnig ar eu defnyddio trwy senario digwyddiad cemegol wedi'i efelychu.
28. Ar lefel y DU, mae pedair gwlad y DU wrthi'n cynllunio ar gyfer argyfyngau posibl ac yn gweithio ar barodrwydd ar gyfer pandemig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau strategaethau parodrwydd ar gyfer pandemig traws-lywodraeth yn ogystal â diweddarau Cynllun Ymateb i Ffliw Pandemig 2011, a fydd yn cael ei ehangu i fod yn Gynllun Ymateb i Ffyrsgau Anadlol. Hefyd, mae gwaith cynllunio'n parhau ar lefel y DU a Chymru i sicrhau bod gennym y gwrthfesorau cywir ar waith er mwyn ymateb i fygythiadau pan fyddant yn codi. Mae gwrthfesorau'n cynnwys Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), brechlynnau ar gyfer pandemig penodol, meddyginiaethau gofal critigol, a mesurau i ymateb i fygythiad Cemegol, Biolegol, Niwclear neu Radiolegol.
29. Mae swyddogion ac asiantaethau iechyd cyhoeddus o'r pedair gwlad wedi gweithio i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) pum mlynedd cyfredol yn unol â gweledigaeth y DU i reoli a rhwystro AMR erbyn 2040. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd y DU ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (2024-29) yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2024. Bydd Grŵp Goruchwylio Cyflenwi AMR Cymru newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r cynllun, a bydd tri grŵp cyflenwi llai yn cael eu sefydlu hefyd ar gyfer iechyd pobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd, ac ymchwil a gwyliadwriaeth.
30. Er mwyn cydnabod yr angen parhaus am eglurder mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau, ac am gydlyniant rhwng y strategaethau a'r cynlluniau gwahanol, mae gwaith ar Fframwaith Diogelu Iechyd Cenedlaethol i Gymru wedi dechrau gyda phartneriaid. Bydd y Fframwaith yn amlinellu ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau a'n hamcanion allweddol ar gyfer diogelu iechyd.

Cydweithredu a chyfathrebu

31. Nododd yr Adolygiad bwysigrwydd dulliau cyfathrebu agored sy'n gweithredu ym mhob cyfeiriad ac sy'n gallu darparu adborth a chaniatáu i dderbynwyr ymgysylltu'n llawn, cael ôl-drafodaethau rheolaidd a chyfnewid dulliau arferion gorau.
32. Rydym yn parhau i adeiladu ar y profiadau a'r cysylltiadau a ddatblygwyd yn ystod pandemig Covid-19 i sicrhau bod mecanweithiau amlasiantaeth wedi'u sefydlu i helpu partneriaid i ddod at ei gilydd i drafod materion sy'n dod i'r amlwg a darparu diweddariadau ac adborth mewn modd amserol. Yn ogystal â HPAG a'i is-grwpiau, mae fforymau eraill ar gyfer adborth a thrafodaeth yn cynnwys y Grŵp Gweithredol a Pharodrwydd Diogelwch Iechyd (HPORG) sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar lefel weithredol o fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ac sy'n mynd i'r afael â materion gweithredol allweddol, a Grŵp Rhannu Gwybodaeth am Glefydau Trosglwyddadwy (CDISG) a sefydlwyd i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth leol a rhanbarthol o bob un o'r 7 ardal bwrdd iechyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.
33. Mae thema Llythrennedd Brechu ymysg y Cyhoedd yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o ddisgwyliadau sydd â'r nod o helpu i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd brechu, sy'n hanfodol er mwyn gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu brechu yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG ar sail gwybodaeth am ymddygiad, gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau mwy anodd eu cyrraedd, er mwyn cynorthwyo'r gwaith hwn.

Data

34. Argymhellion yr Adolygiad y dylid adolygu systemau data i archwilio sut y gallant weithredu yn unol â safonau cyffredin y cytunwyd arnynt er mwyn helpu i gasglu data a chynyddu eu gwerth mewn gwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol a lleol, gan gefnogi swyddogaethau lleol a chanolog hefyd. Nododd yr Adolygiad fod angen cyflwyno mesurau parodrwydd technegol ar gyfer systemau monitro cadarn a gwydn, gwyliadwriaeth ac asesiadau risg o fygythiadau firaol sy'n dod i'r amlwg, ac y dylid digideiddio systemau gwyliadwriaeth lle bynnag y bo modd, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.
35. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyflwyno cynllun gwyliadwriaeth anadlol integredig, sy'n ystyried feirws y pandemig SARS-CoV-2 ynghyd â phathogenau anadlol eraill ac sy'n asesu effaith y pathogenau hyn ar lefelau gwahanol, o achosion asymptomatig i achosion difrifol lle mae pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r wyliadwriaeth hon yn cynnwys sawl system a llwybr adrodd, ynghyd â data arbenigol a data arall fel microbioleg a brechiadau a derbyniadau i ysbytai.

36. Mae gwaith wedi cael ei wneud i integreiddio adroddiadau gwyliadwriaeth ar wahân ar gyfer COVID-19 a'r fflw i greu cyfres integredig o allbynnau sy'n cwmpasu pob lefel o ddifrifoldeb clefyd a math o wylidwriaeth. Hefyd, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi dechrau datblygu casgliadau o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar grwpiau poblogaeth penodol, ac mae crynodeb deongliadol wythnosol, sy'n cynnwys pwyntiau allweddol o bob system wylidwriaeth, yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae lechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnal adolygiad o'i allbynnau gwyliadwriaeth, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19 na fyddant yn cael eu darparu bellach, fel ystadegau marwolaethau COVID-19. Rydym yn gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwyliadwriaeth barhaus yn bodloni'r gofynion wrth symud ymlaen.
37. Mae gennym drefniadau monitro a goruchwyllo o hyd er mwyn adolygu'r data gwyliadwriaeth a'r wybodaeth am feirysau anadlol. Mae hyn yn adeiladu ar y dull a fabwysiadwyd drwy gydol y pandemig i gyfuno ystod ehangach o dystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol o ddisgyblaethau gwahanol ynghyd â gwybodaeth a gwyliadwriaeth leol.
38. Mae prosiect darganfod wedi dod i ben yn ddiweddar a oedd yn archwilio sut y gallwn ni ddatblygu'r systemau digidol a sefydlwyd i gynorthwyo'r ymateb i'r pandemig. Y dyhead yw datblygu system ddigidol i Gymru yn y dyfodol sy'n gallu gweithredu fel system rheoli achosion o ddydd i ddydd ar gyfer diogelu iechyd, a bod modd ei hehangu lle bo angen i fod yn effeithiol mewn achosion sylweddol neu sefyllfa bandemig. Byddai system integredig sydd ar gael i bartneriaid ledled y system gan gynnwys Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau lechyd yn gallu hwyluso gwyliadwriaeth, gwaith ymchwil a dadansoddeg uwch, a gwaith modelu gan fanteisio ar yr ystod eang o arbenigedd sy'n bodoli ar draws y sefydliadau hyn. Bydd system rheoli achosion sydd â mynediad at ddata craidd yn cryfhau ein dealltwriaeth o batrymau clefydau trosglwyddadwy a bygythiadau eraill i ddiogelwch iechyd, a bydd modd ei defnyddio i ddadansoddi darlun cyflawn.
39. Un o nodau craidd y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol yw datblygu'r seilwaith digidol sydd ei angen i ddarparu system frechu effeithiol ac effeithlon, sy'n gweithio'n ddi-dor i ymarferwyr a chleifion fel ei gilydd. Mae proses darganfod digidol gan lechyd a Gofal Digidol Cymru wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd y darganfyddiad yn asesu opsiynau ar gyfer gwireddu'r trawsnewidiad brechu digidol sydd wedi'i amlinellu yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol. Mae cyllid yn ei le i alluogi lechyd a Gofal Digidol Cymru i symud o ddarganfod i gyflenwi a dechrau cyflawni'r gwelliannau digidol hanfodol i frechu er mwyn cefnogi gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
40. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud i gwmpasu'r broses o ddatblygu Set Ddata Rheoli Perfformiad Brechu Cymru Gyfan. Fel rhan o'r dyheadau rheoli data a pherfformiad ehangach a nodir yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, bwriedir dwyn ynghyd weithgarwch brechu, monitro ariannol, monitro ansawdd

a diogelwch a gwybodaeth am imiwneiddio staff y GIG er mwyn helpu i gefnogi gofynion strategol a gweithredol rhaglenni brechu yng Nghymru.

41. Roedd yr Adolygiad yn cydnabod cynnydd gwaith ymchwil Genomeg a dulliau newydd o fodelu, ond nododd fod yna rwystrau weithiau i rannu data rhwng asiantaethau a gwledydd eraill y DU. Mae cyfleuster newydd ym Mharc Gwyddorau Bywyd Cardiff Edge - Canolfan Iechyd Genomig Cymru (CIGC) – wedi'i adeiladu, ac mae'n cydleoli sefydliadau partner Partneriaeth Genomeg Cymru sy'n darparu gwasanaethau ac ymchwil, ac mae'n creu amgylchedd sy'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng y GIG, y byd academiaidd a phartneriaid diwydiannol. Hefyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n datblygu Strategaeth Genomeg Pathogenau, ac rydym yn buddsoddi mewn gwaith dilyniannu genomeg pathogenau sy'n gysylltiedig â Covid-19.
42. Ar lefel Pedair Gwlad, mae Cytundeb Rhannu Data newydd wedi'i gytuno rhwng y pedair Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus yn y DU mewn perthynas â rhannu data personol.

Gwylidwriaeth a sganio'r gorwel

43. Nododd yr Adolygiad mai'r allwedd ar gyfer bod yn barod am y perygl nesaf ag effaith genedlaethol, beth bynnag fo'i natur, a chael gweithgareddau rheoli tecach ar gyfer clefydau heintus endemig, yw bod yn effro i arwyddion cynnar o achosion neu fethiannau mewn rheolaeth arferol. Argymhellir y dylem barhau a chryfhau cysylltiadau'r pedair gwlad a chysylltiadau rhyngwladol a'r byd academiaidd, er mwyn gwella gwaith sganio'r gorwel, rhagweld digwyddiadau argyfwng a nodi anghenion ar gyfer gwella gwaith rheoli arferol.
44. Rydym wedi gweithredu ar hyn trwy barhau i fuddsoddi mewn gwylidwriaeth clefydau anadlol effeithiol a rheolaidd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cynhyrchu sawl adroddiad yn rheolaidd gan gynnwys adroddiadau ar epidemioleg, derbyniadau i ysbytai, cadw gwylidwriaeth ar farwolaethau, tueddiadau profion feirysau anadlol, cadw gwylidwriaeth ar amrywiolion a gwylidwriaeth syndromig. Hefyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n llunio crynodeb o ddata ar frechu.
45. Rydym yn datblygu dull hirdymor o gadw gwylidwriaeth ar ddŵr gwastraff er mwyn integreiddio'r dechnoleg i'r system wylidwriaeth iechyd cyhoeddus integredig; mae hyn yn cynnwys gweithio'n gynhyrchiol gyda'n partneriaid academiaidd o Ganolfan Ymchwil Dŵr Gwastraff Cymru a'n partneriaid ar draws y pedair gwlad. Mae monitro dŵr gwastraff yn gallu dangos arwyddion cynnar o gynnydd posibl yn nifer yr achosion o bathogenau fel Covid-19, Norofeirws, y Ffliw a llawer o rai eraill. Hefyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i gyflwyno ei gynllun gwylidwriaeth anadlol integredig, yn unol ag egwyddorion gwylidwriaeth sydd wedi'u hargymell gan Sefydliad Iechyd y Byd a Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop. Mae hyn yn ystyried feirws y pandemig SARS-

CoV-2 ochr yn ochr â phathogenau anadlol eraill ac mae'n asesu effaith y pathogenau hyn ar lefelau gwahanol, o achosion asymptomatig i achosion difrifol lle mae pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'n cynnwys sawl system a llwybr adrodd, ynghyd â microbioleg a genomeg arbenigol, ac mae'n gysylltiedig â data arall fel brechiadau a derbyniadau i ysbytai. Lle bynnag y bo modd, defnyddir data sy'n bodoli eisoes, wedi'i wella gan ddulliau cysylltu a gwyddor data. Mae'r wylidwriaeth hon yn cynnwys gwyliadwriaeth o sentinel gymunedol mewn practisau meddyg teulu a fferyllfeydd cymunedol a gwyliadwriaeth o Heintiau Anadlol Acíwt Difrifol (SARI) mewn ysbytai. Hefyd, rydym yn cadw lefel sylweddol o gapasiti a seilwaith profion labordy ar gyfer feirysau anadlol (gan gynnwys COVID-19), ac rydym wedi buddsoddi mewn profion amlddadansoddiad sy'n helpu i wneud diagnosis o feirysau anadlol a'u monitro. Mae'r gallu i brofi am bathogenau newydd yn cynorthwyo ein parodrwydd ar gyfer peryglon yn y dyfodol ac yn cryfhau ein gwyliadwriaeth.

46. Mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu Prifysgol Abertawe i ymgymryd â Rhagamcanion Tymor Canolig a Hirdymor ar gyfer Covid-19 a phathogenau eraill, fel Ffliw Adar. Mae'r rhagamcanion hyn yn dylanwadu ar waith cynllunio a pharodrwydd y GIG, yn enwedig yn ystod cyfnod y Gaeaf.
47. O ystyried y gyfran o fygythiadau clefydau heintus sy'n dod i'r amlwg o darddiad milheintiol, rydym yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i gryfhau ein gallu gwyliadwriaeth a'n systemau rhybuddion cynnar ledled y sbectrwm Iechyd Cyfunol ar gyfer iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion.
48. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar y DU hefyd, ac rydym yn gweithio gyda chymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU i gyfrannu at Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU (BSS) a'r Rhwydwaith Biowylidwriaeth Cenedlaethol (NBN). Mae'r NBN yn un o ganlyniadau'r BSS sy'n ceisio cysylltu galluedd gwyliadwriaeth a ffynonellau data amrywiol ac ar wahân sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu gwasanaeth monitro cynhwysfawr o fygythiadau hysbys ac eginol i'n diogelwch biolegol cenedlaethol.
49. Rydym yn ceisio manteisio'n llawn ar rôl gwyddoniaeth a thystiolaeth wrth sganio'r gorwel. Trwy arsylwyr Cymru ac aelodaeth gyfetholedig o'r JCVI, rydym yn parhau i gael gwybod am frechiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn erbyn clefydau heintus. Mae rôl y Grŵp Cyngori Technegol (TAG) yn cael ei adolygu ynghyd â deall rôl y pwyllgorau cyngori proffesiynol ar thema gwyddoniaeth a thystiolaeth mewn polisi iechyd. Roedd y model TAG yn fodd effeithiol o gynorthwyo dadansoddiad o effeithiau'r pandemig yng Nghymru trwy drosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd. Byddai sefydlu pwyllgorau cyngori yn ymwneud â gwyddor iechyd a thystiolaeth yn helpu i ddarparu swyddogaeth debyg er mwyn llywio polisi iechyd wrth symud ymlaen. Mae perthynas rhannu gwybodaeth wedi'i sefydlu gyda Phrif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Seland Newydd er mwyn dysgu am ddefnydd y wlad o wyddoniaeth, ymchwil a

thystiolaeth yn ystod pandemig Covid-19. Hefyd, rydym yn archwilio opsiynau i ddefnyddio data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) a datblygu cynigion ymchwil ar y cyd ag Ymchwil Data Gweinyddol Cymru. Mae Bwrdd Tystiolaeth Strategol Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu er mwyn gwella'r defnydd o wyddoniaeth a thystiolaeth wrth lunio polisiau ar draws Llywodraeth Cymru.

Y camau nesaf

50. Mae'r gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr Adolygiad wedi'i gwblhau yn erbyn cefnlen cyd-destun heriol cyllid cyhoeddus a galw cynyddol ar y system iechyd a gofal. Mae gwaith partneriaeth wedi parhau ar draws y system diogelu iechyd yng Nghymru - ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol - er mwyn datblygu ein blaenoriaethau strategol a rhoi camau ar waith i weithredu argymhellion yr adolygiad.
51. Rydym yn bwriadu canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd allweddol gan gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cynnwys datblygu ein gwaith yn ymwneud â pharodrwydd ar gyfer pandemig, gan gynnwys ystyried y defnydd o wirfoddolwyr a staff anarbenigol, yn ogystal â phartneriaethau a chydweithio â phrifysgolion a darparwyr addysg drydyddol. Byddwn yn parhau i gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n swyddogaethau diogelu iechyd rhanbarthol trwy ddarparu cyllid rheolaidd a datblygu camau gweithredu cenedlaethol a lleol cysylltiedig sy'n darparu dull gweithredu system gyfan. Mae proses monitro ac adrodd chwarterol ar gyflawni yn erbyn yr egwyddorion craidd wedi'i sefydlu yn ein trefniadau llywodraethu, a bydd cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Diogelu Iechyd sydd ar ddod yn darparu trosolwg strategol.
52. Mae Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd y Prif Swyddog Meddygol yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn cyflwyno'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr Adolygiad.
53. Rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu hymgylltiad cadarnhaol parhaus, ac rydym yn ymrwmo i barhau i gydweithio er mwyn datblygu ein cyflawniadau hyd yn hyn i gryfhau system Diogelu Iechyd Cymru ar gyfer y dyfodol.

Atodiad A - Diweddariad i'r Cynllun Cyflawni a Gweithredu

| Maes thematig | Rhif | Argymhelliad | Cam(au) i'w gweithredu | Diweddariad ar Statws |
|--------------------------|----------|---|---|---|
| Dyluniad Systemau | 1 | <p>Cynnal capasiti ymateb iechyd y cyhoedd integredig cynaliadwy ar raddfa fawr fel y gwelwyd yn ystod Covid drwy:</p> <p>Sicrhau bod ôl-groniadau mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn cael eu clirio ac yn parhau ar lefelau y gellir ymdopi â nhw, ac nad ydynt yn arwain at ddirywiad yn iechyd a lles y cyhoedd, gan sicrhau pobl iachach sy'n llai agored i glefydau heintus a bygythiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chlefydau heintus.</p> | <p>Parhau i ganolbwyntio ar iechyd y boblogaeth ac atal fel y llwybr tuag at iechyd a lles gwell ac i wella diogelwch iechyd yn fwy hirdymor.</p> <p>Parhau i ddarparu rhaglenni imiwneiddio ac iechyd y cyhoedd cryf, a hyrwyddo dealltwriaeth well o iechyd, heintiau, a pheryglon amgylcheddol.</p> <p>Adeiladu ar y sgiliau, y profiad a'r dysgu a ddatblygwyd yn ystod yr ymateb i bandemig Covid-19, gyda'r byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu dull gweithredu lleol o dan fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol.</p> <p>Cysylltu ffrydiau gwaith a chynlluniau adfer presennol perthnasol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau ymateb system cydgysylltiedig a hyrwyddo gwaith partneriaeth ehangach a chyfranogiad cymunedol. Cynnwys gwaith i ddarparu cynlluniau llesiant ac ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a grwpiau amlasiantaethol eraill.</p> <p>Defnyddio ysgogiadau iechyd cyhoeddus amgylcheddol i gyfrannu at wella iechyd y cyhoedd, er enghraifft mewn meysydd fel ansawdd aer, halogi dŵr a'r tir, tai a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Cydweithio â'n cydweithwyr yn y maes iechyd a Lles Anifeiliaid i gryfhau partneriaethau mewn dull iechyd Cyfunol fel yr argymhellir yn Adroddiad Blynyddol</p> | <p>Cymru Iachach - adolygiad o gamau gweithredu Cymru Iachach i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfoes ac yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau y bydd angen i Gymru fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys canolbwyntio ar atal a gwella iechyd y boblogaeth i gynyddu ein diogelwch iechyd. Cyflwyno'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol.</p> <p>Disgwylir i'r holl raglenni sgrinio gael eu hadfer erbyn Ch2 2024. Yr eithriad yw Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) sy'n destun gwaith i drawsnewid y rhaglen i fynd i'r afael â'r galw cynyddol. Nod yr holl waith gwella yw cynyddu a chynnal capasiti er mwyn sicrhau bod DESW yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer cyfranogwyr.</p> <p>Ymgyrchoedd cyfathrebu e.e. ymgyrch gaeaf 2023 Iechyd Cyhoeddus Cymru, ymgyrch frechu.</p> <p>Mae datblygu Fframwaith Diogelu Iechyd Cenedlaethol newydd ar y gweill. Bwriedir cwblhau'r gwaith erbyn Haf 2024. Bwriedir i'r Fframwaith adeiladu ar yr egwyddorion craidd a oedd yn cynnwys: yr angen i dimau sefydlu cynlluniau parodrwydd i'w hehangu os oes bygythiad a senario pandemig yn y dyfodol, cyflwyno'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, a sicrhau cynnydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau atal, profi a thriniaeth er mwyn cyrraedd targedau dileu clefydau ar gyfer TB, Hepatitis B a C a HIV.</p> |

| | | | | |
|--|--|--|---|---|
| | | | <p>y Prif Swyddog Meddygol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.</p> <p>Parhau i ganolbwyntio ymdrechion ar ddileu TB a hepatitis. Bydd Grŵp Arbenigol TB Cymru Gyfan yn adolygu ac yn diweddarau Fframwaith Cenedlaethol Cymru sydd wedi'i ddrafftio, a'i gyflwyno i'w adolygu a'i gymeradwyo gan Grŵp Goruchwylio Llywodraeth Cymru. Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo yn ystod y chwe mis nesaf.</p> <p>Rhoi pwyslais strategol o'r newydd ar yr agenda dileu, gan ganolbwyntio ar dargedau dileu 2030 Sefydliad Iechyd y Byd trwy Grŵp Goruchwylio Rhaglen Dileu Hepatitis B ac C. Gweithredu'r 13 cam allweddol a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu darparu gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen i adfer gwasanaethau i lefelau cyn y pandemig a bwrw ymlaen â'r agenda dileu.</p> <p>Mae gwaith Gofal ac Adfer a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn gwasanaethau iechyd yn cael ei arwain gan y Rhaglen Adfer Genedlaethol a fydd yn nodi gofynion penodol ar gyfer byrddau iechyd lleol. Mae bodloni'r gofynion hyn yn flaenoriaeth Weinidogol i'r byrddau iechyd. Sicrhau y bydd ffocws di-baid yn parhau ar sgrinio a fydd yn cynnwys adfer Bron Brawf Cymru, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Rhaglen Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen Cymru i lefelau cyn y pandemig.</p> <p>Sicrhau bod ymdrechion adfer yn gynhwysol a bod gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Grŵp Iechyd a Chydraddoldeb er mwyn sicrhau bod materion</p> | <p>Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid drwy is-grŵp Iechyd Cyfunol HPAG i ganolbwyntio ein hymdrechion ar dri maes blaenoriaeth allweddol (AMR; Atal, Parodwydd ac Ymateb; Gwylidwriaeth) a chwblhau dadansoddiad sefyllfa o Un Cyfunol yng Nghymru i lywio'r camau nesaf.</p> <p>Mae cynllun cychwynnol, sy'n amlinellu ein camau cynnar tuag at ddileu TB erbyn 2030, wedi cael ei ddrafftio gan Grŵp TB Cymru Gyfan, a bydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2024. Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru sy'n amlinellu'r 13 cam allweddol ar ein ffordd i ddileu Hepatitis B ac C ym mis Ionawr 2023, ac mae byrddau iechyd a Byrddau Cynllunio Ardal camddefnyddio sylweddau wedi cyflwyno eu cynlluniau i ddarparu mwy o wasanaethau ar draws camau gweithredu amrywiol, o atal a diagnosis, i driniaeth.</p> <p>Mae'r Cynllun Adfer Gofal a Gynlluniwyd - Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd a Gweithrediaeth y GIG yn parhau i weithio gyda gwasanaethau.</p> <p>Disgwylir adfer Bron Brawf Cymru erbyn Ch2 2024. Adferwyd Rhaglen Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen Cymru ym mis Mawrth 2023. Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) yn destun gwaith i drawsnewid y rhaglen ac, felly, bydd yn cymryd mwy o amser i adfer y gwasanaeth hwn.</p> <p>Mae gwaith Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG yn cynnwys pwyslais ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu setiau data a chymryd camau i ymateb i fylchau er mwyn cryfhau'r |
|--|--|--|---|---|

| | | | |
|---|---|--|---|
| | | <p>tegwch yn cael eu hystyried wrth gyflwyno'r rhaglen gofal a gynlluniwyd.</p> <p>Nodi'r gwersi a ddysgwyd o'n profiad yn ystod y pandemig a chymhwyso'r rhain er budd pob rhaglen frechu, er mwyn sicrhau bod ffocws parhaus ar gael lefelau uchel o bobl i fanteisio ar ein rhaglenni brechu. Sicrhau bod cysylltiadau cryf yn cael eu sefydlu ar draws rhaglenni brechu a sgrinio, er enghraifft gyda sgrinio HPV a chanser ceg y groth.</p> | <p>gwaith o gasglu data ar anghydraddoldebau gyda'r nod o sicrhau data manylach yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig er mwyn llywio camau polisi;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prif ffrydio'r defnydd o ddulliau rheoli iechyd y boblogaeth, gan gynnwys segmentu/pennu lefel risg i'r boblogaeth gan gyrrff y GIG er mwyn llywio rhaglenni atal wedi'u targedu. <p>Nododd Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru werth a phwysigrwydd datblygu gweithlu cynaliadwy â sgiliau cymysg i hwyluso timau brechu ystwyth a gwydn mewn byrddau iechyd, fel rhan o'r gwasanaeth diogelu iechyd lleol integredig. Mae cyllid cynaliadwy gyda'r nod o gefnogi'r gwasanaeth hwn mewn byrddau iechyd wedi'i sicrhau.</p> |
| 2 | <p>Parhau i ddod â'r system ehangach, y lleol, y rhanbarthol a'r cenedlaethol, ynghyd mewn gweithgareddau rheoli clefydau arferol, ac wrth ymarfer a hyfforddi ar gyfer argyfyngau er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio fel un ac nad yw'n mynd yn dameidiog.</p> | <p>Egluro rolau a chyfrifoldebau, adolygu cynlluniau a defnyddio ymarferion i brofi a chefnogi diwylliant dysgu o welliant parhaus.</p> <p>Datblygu amserlen o hyfforddiant ac ymarferiadau perthnasol yn cynnwys pobl a sefydliadau ar draws y system diogelu iechyd gan gynnwys clefydau trosglwyddadwy a digwyddiadau amgylcheddol. Diweddar'u'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru a pharodrwydd at y Gaeaf, gan ddefnyddio profiadau a'r hyn a ddysgwyd yng Ngaeaf 2022/23 ar gyfer Gaeaf 23/24.</p> <p>Ynghyd â phrofion ac ymarferion, cynnal adolygiad llywodraethu o'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd.</p> | <p>Mae'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ("y Cynllun Rheoli Achosion") wedi cael ei adolygu'n gynhwysfawr i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae'r cynllun diwygiedig yn adlewyrchu'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol, newidiadau i reoliadau'r UE, ac allbynnau o'r Adolygiad o'r System Diogelu Iechyd a'r Adolygiad o Achosion Twberculosis Llwynhendy. Mae gofyniad i brofi ac ymarfer y cynllun yn rheolaidd wedi'i gadw yn y fersiwn ddiweddaraf - mae'r cynllun yn ymrwmo i adolygiad ffurfiol o leiaf bob tair blynedd, gan gynnwys pob atodiad a gwybodaeth ategol ychwanegol. Bydd ymarferion amlasiantaeth priodol i brofi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y 'Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru' yn cael eu cynnal o leiaf bob dwy flynedd, ac mae</p> |

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | <p>ymarferiad i brofi'r diweddariad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2024.</p> <p>Mae gwersi a ddysgwyd o Aeaf 2022/23 wedi'u defnyddio i ddatblygu Fframwaith Anadlol y Gaeaf a gyhoeddwyd ar 26 Medi. Mae mesurau Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) yn parhau i fod yn elfen allweddol o ymarfer i leihau trosglwyddiad COVID-19 a heintiau eraill, fel y ffliw, feirws syncytiol anadlol (RSV), a norofeirws mewn lleoliadau iechyd a gofal. Hefyd, mae'r Fframwaith yn cynnwys adrannau allweddol sy'n mynd i'r afael â gwaith modelu, gwylidwriaeth, brechu, profi, triniaeth wrthfeirysol, a chyfathrebu. Roedd yr adran gyfathrebu'n mynd i'r afael â negeseuon ar gyfer unigolion a lleoliadau neu sectorau allweddol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a charchardai. Cafodd ei diweddarau wedyn yng nghyd-destun BA.2.86 ac mae'n ymrwmo i gylch adolygu blynyddol, gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o dymor diweddaraf y Gaeaf.</p> <p>Mae cynlluniau a chanllawiau allweddol eraill wedi'u hadolygu a'u diweddarau neu eu datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Feirysau Anadlol 23/24 • Canllawiau Rheoli Risgiau Iechyd y Cyhoedd o Ddigwyddiadau Amgylcheddol Cymru • Canllawiau'r Fframwaith Cenedlaethol wedi'u datblygu i gynorthwyo cartrefi gofal y tu hwnt i Covid-19. <p>Cwblhawyd adolygiad llywodraethu o Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd (HPAG) y Prif</p> |
|--|--|--|--|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|--|
| | | | | Swyddog Meddygol yn 2023. Mae tri is-grŵp strategol yn adrodd i HPAG bellach: Iechyd y Cyhoedd Amgylcheddol; Clefydau Trosglwyddadwy; ac Iechyd Cyfunol. |
| 3 | Sicrhau bod timau Iechyd y Cyhoedd byrddau Iechyd a thimau Iechyd yr Amgylchedd llywodraeth leol yn parhau i gael eu cryfhau drwy egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau craidd, gan gynnwys gwyddor ymddygiad, cyfathrebu risg ac atal a rheoli heintiau. | <p>Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda phartneriaid i egluro a diffinio rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ar draws y system ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol (gan gynnwys adnoddau ac arweinyddiaeth diogelu Iechyd arbenigol). Disgrifio lle mae cyfleoedd ar gael ar gyfer cydweithredu ac integreiddio, a disgwyliadau ohonynt.</p> <p>Datblygu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a mapio'r gwaith hwn i gwmpas gwreiddiol yr Adolygiad er mwyn cynnwys prif feysydd diogelu Iechyd, a sicrhau cysondeb â chynlluniau ar gyfer argyfyngau sifil. Dyma oedd cwmpas yr adolygiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parodrwydd, cadernid ac ymateb mewn perthynas ag Argyfyngau Iechyd (gan gynnwys Cemegol, Biolegol, Radiolegol neu Niwclear) • Rheoli clefydau trosglwyddadwy, gan gynnwys gwasanaethau microbiolog • Rheoli peryglon amgylcheddol, risgiau hinsawdd a risgiau Iechyd y cyhoedd • Cyfathrebu risg, asesu risg, a rheoli risg, gan gynnwys dulliau sy'n cael eu llywio gan ymddygiad • Monitro a goruchwyllo bygythiadau trosglwyddadwy ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd | <p>Mae rolau a chyfrifoldebau wedi cael eu cryfhau drwy adolygu a diweddarau cynlluniau amrywiol, e.e. Cynllun Rheoli Achosion. Mae gwaith i greu Fframwaith Diogelu Iechyd Cenedlaethol i Gymru wedi dechrau gyda phartneriaid, a bydd y broses o ddiffinio 'rolau a chyfrifoldebau' a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu yn un o elfennau allweddol y gwaith i ddatblygu'r Fframwaith Diogelu Iechyd gyda mewnbwn gan bartneriaid ar draws y system.</p> <p>Bydd y themâu o'r adolygiad sydd wedi'u nodi yn cael eu cofnodi fel rhan o'r Fframwaith arfaethedig.</p> <p>Mae Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Pandemig trawslywodraethol wedi cael ei sefydlu i oruchwyllo'r broses o ddatblygu fframwaith parodrwydd ar gyfer pandemig, gan sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi o Covid. Bydd y fframwaith yn mynd i'r afael â galluoedd o dan 5 thema allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwylidwriaeth a rhybuddion cynnar • Lleihau trosglwyddiad a lleihau niwed • Lleihau ac ymateb i bwysau ar wasanaethau'r GIG, gofal cymdeithasol a gwasanaethau ehangach • Cydraddoldeb/amddiffyn pobl fregus • Cryfhau trefniadau llywodraethu | |

| | | | | |
|-----------------------------------|---|---|--|--|
| | | | <ul style="list-style-type: none"> Atal a rheoli heintiau | <p>Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ehangach, yn enwedig y rhai gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, yn cael eu hadolygu er mwyn ceisio cryfhau'r cytundebau gyda gwledydd eraill y DU ar gyfer ymateb brys diogelu iechyd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau yn ymwneud â chemegau, gwenwynau, ymbelydredd a pheryglon amgylcheddol hefyd. .</p> |
| Llywodraethu ac Atebolwydd | 4 | <p>Mae angen mynd ati ar y cyd i adolygu'r holl gynlluniau diogelu iechyd a chynlluniau argyfyngau sifil posibl, yn ogystal â'r rhai ar gyfer rheoli clefydau endemig, nawr ac yn y dyfodol, yn dilyn cylch cynllunio, hyfforddi, addysgu, ymarfer, adolygu, cynllunio, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datblygu'n llawn, eu bod yn cydfynd â chynlluniau cyd-ddibynnol eraill, gan gynnwys cynlluniau lleol a chenedlaethol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, a'u bod yn cynnwys llinellau cyfathrebu a chymorth clir.</p> | <p>Mae hyn yn gysylltiedig ag argymhellion 2 a 3.</p> <p>Byddwn yn nodi ac yn mapio pob cynllun diogelu iechyd ac argyfwng sifil ac yn datblygu blaengynllun yn nodi pryd y bydd cynlluniau allweddol yn cael eu diweddarau. Byddwn y nodi lle mae dyblygu a gorgyffwrdd ac yn ceisio rhesymoli cynlluniau i wella effeithlonrwydd. Byddwn yn glir ynghylch lle mae cyd-ddibyniaeth â chynlluniau ehangach ar lefel y DU.</p> <p>Ochr yn ochr â'r ymarfer hwn, byddwn yn dewis un cynllun craidd i'w brofi a'i adolygu, gan sicrhau ein bod yn datblygu proses werthuso gref fel y gellir cymhwyso gwersi i bob cynllun.</p> | <p>Mae cynlluniau a chanllawiau allweddol wedi'u hadolygu a'u diweddarau neu eu datblygu fel y disgrifir uchod, ac mae cylchoedd adolygu ac ymarfer parhaus wedi'u cynnwys yn y gwaith o ddiweddarau'r cynlluniau. Y Cynllun Rheoli Achosion yw'r cynllun unigol ar gyfer rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy yng Nghymru, ac yn dilyn adolygiad cynhwysfawr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol ar draws y system, cytunwyd bod y cynllun hwn yn parhau i gwmpasu pob digwyddiad ac achos. Ar lefel y DU, mae pedair gwlad y DU wrthi'n diweddarau Cynllun Ymateb i Ffliw Pandemig 2011 gyda Chynllun Ymateb i Feirysau Anadlol. Mae cyflenwadau o wrthfesu'au'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i adeiladu ar wersi o'r pandemig.</p> <p>Mae Cynllun Ymateb Cymru Gyfan a luniwyd ac a ddatblygwyd gan Is-adran Cadernid a Diogelwch Gwladol Llywodraeth Cymru wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod 2023 hefyd. Mae'r cynllun diwygiedig yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli argyfwng sy'n effeithio ar sawl ardal neu bob ardal o Gymru. Mae'r Cynllun yn ategu trefniadau lleol ynghyd â'r gweithdrefnau cyd-asiantaethol presennol - ac mae'n darparu strwythurau cyfathrebu cydlynol. Mae adolygiad manwl arall ar waith bellach i sicrhau bod y cynllun Cymru gyfan yn parhau i ystyried ac</p> |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | <p>adlewyrchu blaenoriaethau a risgiau sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Hefyd, mae'r Is-adran Cadernid a Diogelwch Gwladol wedi comisiynu Cynllun 5 Busnes Achos manwl i nodi opsiynau ar gyfer swyddogaeth darparu dysgu ganolog newydd. Bydd y wybodaeth ar gael yn ddiweddarach yn 2024, a bydd yn llywio cynlluniau'r dyfodol i wella ein dealltwriaeth o gadernid cenedlaethol, nodi meysydd posibl i'w gwella, darparu addysg briodol a gwerthuso'r effaith ar gadernid cenedlaethol.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu Cwrs Aur Ymarfer Cymru (EWGC). Mae EWGC wedi'i alinio'n ffurfiol â'r Cwrs Rheoli Digwyddiadau Aur Amlasiantaeth – gan baratoi arweinwyr strategol i weithio'n effeithiol fel rhan o Grwpiau Cydgysylltu Strategol neu Grwpiau Cydgysylltu Adferiad a sefydlir yn dilyn digwyddiad mawr neu argyfwng, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae'r cwrs yn cynnwys cyfanswm o 27 awr o astudio. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae 110 o gynrychiolwyr wedi mynychu'r cwrs, ac mae 91% wedi cwblhau'r holl elfennau'n llwyddiannus.</p> <p>Hefyd, rydym yn ymgysylltu'n agos ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ar gyflwyno'r Genhadaeth 100 Diwrnod, sy'n fenter i baratoi'r byd yn well ar gyfer y pandemig nesaf trwy fynd ati mewn ffordd ragataliol a rhagweithiol i sbarduno datblygiad diagnosteg, therapiwteg a brechlynnau (DTV) er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn gyflym o fewn y 100 diwrnod cyntaf i nodi bygythiad pandemig yn y dyfodol.</p> |
|--|--|--|--|--|

| | | | | |
|--|---|--|---|--|
| | 5 | <p>Dylid profi cynlluniau drwy ymarferion a gweithdai amlasiantaethol, gyda staff o bob lefel o'r sefydliadau'n cymryd rhan. Lle y bo'n ymarferol, dylai sefydliadau gwirfoddol fod yn rhan o'r prosesau datblygiadol hyn.</p> | <p>Gweler argymhellion 1, 2 a 4.</p> <p>Byddwn yn datblygu ymarferion i brofi cynlluniau a'n gwaith ar rolau a chyfrifoldebau, gan ddefnyddio amrywiaeth o staff ar draws y sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan a chan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector lle bo modd.</p> <p>Byddwn yn cysylltu â chyfleoedd ym maes ehangach argyfyngau sifil posibl er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu'r hyn a ddysgir ac yn elwa o brofiadau amlddisgyblaethol amlasiantaethol.</p> | <p>Mae ymarferion cychwynnol ar gyfer profi'r Cynllun Rheoli Achosion wedi'i ddiweddarau a Rheoli Risgiau Iechyd y Cyhoedd o Ddwydddiadau Amgylcheddol wedi'u trefnu ar gyfer mis Mawrth 2024. Mae cylchoedd adolygu parhaus ar gyfer profi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynlluniau a'r hyn a ddysgir gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Achosion, a byddant yn cael eu cynnal o leiaf bob dwy flynedd.</p> <p>Mae pedair gwlad y DU wrthi'n cynllunio ar gyfer argyfyngau posibl ac yn gweithio ar barodrwydd ar gyfer pandemig. Mae hyn yn cynnwys pob un o'r pedair gwlad yn cymryd rhan mewn profi ac ymarfer cynlluniau a sefyllfaoedd ledled y DU, megis ymarferion Astral Bend a Mighty Oak sydd ag elfennau diogelu iechyd i'w profi.</p> <p>Bydd cyfraniadau'r sector gwirfoddol yn cael eu harchwilio drwy ymarferion ac ymatebion pob perygl sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024, a byddant yn cael eu llywio gan allbynnau ffrwd waith y Gweithlu sy'n rhan o Fframwaith Cyffredin Dros Dro Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd. Hefyd, byddwn yn datblygu ein gwaith yn ymwneud â pharodrwydd ar gyfer pandemig, gan gynnwys ystyried y defnydd o wirfoddolwyr a staff anarbenigol, yn ogystal â phartneriaethau a chydweithio â phrifysgolion a darparwyr addysg drydyddol.</p> |
| | 6 | <p>Dylid datblygu fframweithiau atebolrwydd fel y gellir, ar gyfer unrhyw ddata poblogaeth, monitro anghydraddoldebau fel</p> | <p>Byddwn ni'n adolygu'r data sydd ar gael i nodi unrhyw fylchau ac ystyried y prosesau a ddefnyddir i fonitro unrhyw ddata yn rheolaidd.</p> <p>Mae gan Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA) Llywodraeth Cymru raglen</p> | <p>Byddwn yn canolbwyntio hefyd ar wella ansawdd data o'r man casglu er mwyn sicrhau bod setiau data mor gywir a chyflawn â phosibl fel bod modd dadansoddi darlun cyflawn a helpu i nodi ac unioni anghydraddoldeb.</p> |

| | | | |
|--|--|---|---|
| | <p>mater o drefn a chynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.</p> | <p>waith er mwyn deall yn well yr anghydraddoldebau a'u heffaith ar bolisiâu iechyd a gofal.</p> <p>Bydd SEA yn gweithio'n agos gydag arweinwyr polisi er mwyn blaenoriaethu polisiâu lle mae bylchau wedi'u nodi. Bydd SEA yn darparu tystiolaeth a chyngor i arweinwyr polisi yn ymwneud â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau penodol.</p> <p>Mae'r isadran yn cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI) a bydd yn cydweithio'n agosach â'r Grŵp Iechyd ac Anghydraddoldebau. Yn ogystal â hyn, mae SEA wedi cyhoeddi dau bapur hefyd ar yr effaith ar anghydraddoldebau iechyd yn sgil pandemig COVID-19, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.</p> <p>Mae'r Grŵp Iechyd a Chydraddoldeb yn cyflawni gwaith i sicrhau bod materion tegwch yn cael eu hystyried wrth gyflawni'r rhaglen gofal a gynlluniwyd. Byddwn yn sicrhau bod y grŵp yn ymwybodol o'r argymhelliad hwn i'w ystyried yn eu gwaith.</p> <p>Bydd ffocws ar frechu teg yn parhau hefyd, gan gynnwys drwy ddisgwyliad y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ar fyrddau iechyd i gael Strategaeth Brechu Teg a rhaglen waith. Byddwn yn cydweithio â byrddau iechyd yn ystod 2023 i gael y strategaethau hyn ar waith a'u gweithredu.</p> | <p>Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu hadolygu. Mae Cytundeb Rhannu Data newydd wedi'i gytuno a'i lofnodi gan y pedair Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus yn y DU mewn perthynas â rhannu data personol yn unol â Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021.</p> <p>Mae SEA yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brosiect ar y cyd, sef Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI), gan weithio mewn partneriaeth â Sefydliad Iechyd y Byd, sydd wedi galluogi'r broses o ddatblygu Platform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru. Nod y Platform Datrysiadau yw galluogi a hwyluso atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, camau gweithredu polisi a buddsoddiad cynaliadwy ar draws sectorau tuag at gau'r bwlch iechyd yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl. Hefyd, bydd y Platform Datrysiadau'n helpu i fonitro cynnydd tuag at sicrhau bywydau ffyniannus ac iach i bawb, a bydd yn adlewyrchu goblygiadau Covid-19 er mwyn helpu i roi tegwch iechyd wrth wraidd prosesau cynaliadwy ar gyfer ymateb ac adfer wedi Covid-19.</p> <p>Hefyd, mae SEA wedi cefnogi Canolfan Gydweithredu Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar raglen o'r enw Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru (CHEW), gan ddarparu adborth a chanllawiau ar adroddiadau, a negeseuon allweddol o'r gwaith. Mae SEA yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y prosiect ar y cyd, Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI), ac mae Byrddau Iechyd naill ai wedi cyhoeddi, neu'n</p> |
|--|--|---|---|

| | | | | |
|-------------------|---|---|--|---|
| | | | | gweithio tuag at gyhoeddi, strategaeth brechu teg, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith Imiwnedd Cenedlaethol. |
| Y Gweithlu | 7 | <p>Mae angen cadw gwydnwch lleol ar gyfer diogelu iechyd yn wyneb pob perygl ar ôl adfer o'r pandemig Covid. Er mwyn i dîm lleol ar gyfer rheoli clefydau neu ymateb iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddo gael cefnogaeth gan arbenigwyr diogelu iechyd, labordai iechyd y cyhoedd ac epidemiolegwyr maes. Gellir cryfhau'r berthynas amlasiantaethol hon drwy hyfforddiant ar y cyd.</p> | <p>Mae hyn yn cysylltu â'r gwaith a ddisgrifiwyd mewn ymateb i argymhellad 3 ar rolau a chyfrifoldebau ac yn adeiladu arno.</p> <p>Mae arian pontio wedi'i sicrhau ar gyfer 2023-24 i gefnogi datblygiad timau amlddisgyblaethol diogelu iechyd lleol ar sail ffiniau'r byrddau iechyd, gyda byrddau iechyd a llywodraeth leol yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ymateb lleol i fesurau diogelu iechyd a bygythiadau. Bydd fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol yn sicrhau bod cysondeb ledled Cymru. Mae ystwythder a gwydnwch y timau lleol hyn yn hollbwysig, a bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu egwyddorion craidd er mwyn helpu rhanbarthau i ddatblygu model cynaliadwy wrth symud ymlaen.</p> <p>Byddwn yn cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac eraill i ystyried argymhellion manylach yr adroddiad am raglenni hyfforddiant a fframweithiau cymhwysedd.</p> | <p>Cynhaliwyd yr Adolygiad ar adeg pan oedd llawer o'r adnoddau a gafodd eu sefydlu a'u cynnal yn ystod y pandemig yn bodoli o hyd. Ers hynny rydym wedi symud i ffwrdd o'r ymateb brys i'r pandemig. Mae dull cadarn o weithio mewn partneriaeth yn parhau rhwng gwasanaethau diogelu iechyd ac iechyd yr amgylchedd (diogelu'r cyhoedd) mewn awdurdodau lleol. Mae yna ddynodiadau ffurfiol a phrosesau cydweithio rhwng iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd arbenigol ar gyfer holl waith diogelu'r cyhoedd. Mae dynodi Swyddog Arweiniol penodol o lywodraeth leol yn rhan o'r Cynllun Rheoli Achosion. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu dysgu ar draws sefydliadau ac ymateb cadarn.</p> <p>Datblygwyd egwyddorion craidd i arwain gwaith swyddogaeth diogelu iechyd ranbarthol gan gynnwys yr angen i dimau sefydlu cynlluniau parodrwydd, sydd i'w cynyddu yn wyneb bygythiad a senario pandemig yn y dyfodol. Mae Byrddau Iechyd yn parhau i weithio gyda'u partneriaid Awdurdodau Lleol ar lefel ranbarthol i sefydlu gwasanaeth integredig sy'n gwneud gwaith yn ymwneud ag ôl troed bwrdd iechyd, er mwyn cefnogi mesurau diogelu iechyd gan gynnwys ymateb i fgythiadau'r dyfodol gan ddefnyddio dull gweithredu 'pob perygl'.</p> <p>Mewn sawl ardal yng Nghymru, mae gwasanaeth Diogelu Iechyd Integredig lleol yn cynnwys aelodau staff sy'n cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Yn ogystal â gwaith</p> |

| | | | | |
|---|--|---|---|---|
| | | | | <p>sy'n gysylltiedig â Covid-19, maen nhw'n cefnogi ac yn ymateb i fesurau diogelu iechyd ehangach mewn meysydd allweddol megis darparu capasiti i gefnogi ein rhaglenni brechu, cefnogi'r ymateb i, er enghraifft, Brech M, Ffliw Adar, Llid yr Ymennydd, Strep A a'r Frech Goch, yn ogystal â sgrinio iechyd pobl sy'n cyrraedd o Wcráin a darparu cymorth i geiswyr lloches.</p> <p>Cwblhawyd asesiad o alluoedd sefydlog ar draws y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd ddiwedd 2023, ac erbyn hyn mae cynlluniau ar waith i ehangu hyn ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn asesu parodrwydd ar draws metrigau gwahanol.</p> |
| 8 | <p>Dylid ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn archwilio pa gyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud wrth reoli clefydau endemig a digwyddiadau mawr yn y dyfodol.</p> | <p>Fel rhan o waith y grŵp gorchwyl a gorffen ar rolau a chyfrifoldebau, byddwn yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu strwythurau, cymwyseddau ac arbenigeddau y cytunwyd arnynt, i benderfynu ble mae bylchau y gellid eu llenwi gan ddefnyddio gwirfoddolwyr a'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr diogelu iechyd.</p> <p>Byddwn yn mynd ati i ystyried rôl y sector gwirfoddol o ran diogelu iechyd. Byddwn yn profi'r syniad o gynnwys gwirfoddolwyr mewn ymarferion lle y bo hynny'n briodol. Byddwn yn ymgysylltu â CGGC i brofi potensial gweithio gydag elusennau, er enghraifft y Groes Goch, a byddwn yn ymgysylltu â phrifysgolion fel yr amlinellir yn yr ymateb i argymhelliad 10.</p> <p>Bydd angen rhagor o waith a datblygiad ar gyfer hyn a bydd yn cysylltu â'r gwaith o feddwl am rôl gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau iechyd ehangach. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws argyfyngau sifil posibl i rannu cyfleoedd dysgu a datblygu.</p> | <p>Argymhellodd yr Adolygiad y dylid ystyried defnyddio gwirfoddolwyr a myfyrwyr fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu ar gyfer parodrwydd yn y dyfodol. Bydd gwaith i benderfynu cyfraniadau posibl y sector gwirfoddol yn cael ei archwilio yn ystod 2024.</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain rhaglen waith â blaenoriaeth y Pedair Gwlad yn ymwneud â'r gweithlu diogelu iechyd, ac mae wedi cwblhau ymarferiad mapio sy'n amlinellu'r sgiliau, y safonau a'r adnoddau sydd eisoes ar waith, meysydd ymarfer gorau, llwybrau gyrfa presennol, bylchau/cyfleoedd, a gwybodaeth am ddata'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio trafodaethau manwl ar anghenion penodol y gweithlu diogelu iechyd yng Nghymru.</p> <p>Canfu'r ymarferiad mapio fod y gweithlu wedi ehangu a bod modd i weithwyr gamu ymlaen yn eu gyrfa, yn enwedig ym meysydd Microbioleg a chlefydau y gellir eu hatal trwy frechlynnau. Mae rolau aciwt ym maes diogelu iechyd wedi cael eu</p> | |

| | | | | |
|---|--|--|---|---|
| | | | <p>Mae hyn yn cysylltu hefyd â gwaith ehangach y 4 Gwlad ar y gweithlu diogelu iechyd, sy'n cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y 4 Gwlad.</p> | <p>hymestyn i staff ar raddau is, sy'n golygu eu bod yn cael profiad o waith aciwt yn gynharach a chyfle parhaus i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Hefyd, nodwyd ei bod yn well denu myfyrwyr i lwybr gyrfa diffiniedig (lefel gradd i weithio ym maes iechyd yr amgylchedd) yn dilyn pandemig Covid-19. Hefyd, mae'r brentisiaeth reoleiddiol yn llwybr cynhyrchiol i fyfyrwyr iau sydd am ddilyn cyrsiau gradd cysylltiedig.</p> |
| 9 | <p>Cadw rhestrau o wirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd a roddodd gymorth yn ystod y pandemig a phenderfynu a yw'n ymarferol eu cael i barhau i gyfrannu at weithgareddau yn wirfoddol.</p> | <p>Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwaith ar rolau a chyfrifoldebau (argymhelliad 3), yr adolygiad o gynlluniau (argymhelliad 4), ac ymarfer (argymhelliad 2).</p> <p>Gofynnwyd i dimau lleol gadw cofrestr o unigolion a gynorthwyodd yn ystod y pandemig (er enghraifft trwy wneud galwadau ffôn i olrhain cysylltiadau) sy'n fodlon i'r timau gysylltu â nhw i gynorthwyo eto yn y dyfodol pe bai'r angen yn codi. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cyd-destun y cafodd unigolion eu hadleoli ynddo i weithio ym maes diogelu iechyd yn ystod y pandemig (er enghraifft i ganolfannau Profi, Olrhain, Diogelu neu frechu torfol) yn eithriadol gan fod y cyfyngiadau symud cenedlaethol yn golygu bod staff yn cael eu rhyddhau o'u rolau arferol. Mae'n annhebygol y byddai'r unigolion hyn yn cael eu rhyddhau'n hawdd yn y dyfodol, ac mae cadw cofrestr yn gwbl gyfoes yn waith heriol.</p> <p>Serch hynny, mae llawer i'w ddysgu o'r mecanweithiau a'r prosesau a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i ddefnyddio nifer fawr o staff ychwanegol. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i baratoi ar gyfer bygythiadau yn y dyfodol sydd angen gwaith cynllunio er mwyn cynyddu adnoddau a sicrhau</p> | <p>Mae gwaith i benderfynu ar gyfraniadau'r sector gwirfoddol yn cael ei gynllunio ar gyfer 2024.</p> | |

| | | | | |
|---|----|---|--|--|
| | | | bod modd eu defnyddio'n gyflym. Gall hyn gynnwys cynlluniau hyfforddi, datblygu a symudiadau. | |
| | 10 | Dylid cychwyn trafodaethau gyda phrifysgolion a darparwyr addysg drydyddol eraill er mwyn archwilio mecanweithiau i annog myfyrwyr ar gyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd i gefnogi gwaith diogelu iechyd a chymryd rhan mewn ymarferion ac ymatebion ar gyfer pob perygl yn awr ac yn y dyfodol. | Byddai defnyddio senarios achosion at ddibenion hyfforddi yn rhoi cyflwyniad apelgar i ddiogelu iechyd fel arbenigedd a gyrfa bosibl yn y dyfodol. Byddwn yn dechrau trafodaethau gyda sefydliadau academaidd ar lefel genedlaethol i benderfynu ar ddichonoldeb cynnwys myfyrwyr wrth ddarparu cymorth. Os yw hyn yn ymarferol, byddwn yn cynnwys hyn yn y profion a'r ymarferiadau y cyfeirir atynt uchod. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu cwricwla i ddarparu cymhwysedd a phrofiad diogelu iechyd i fyfyrwyr, gan y gallai hyn weithredu fel cronfa ar gyfer gweithlu arbenigol yn y dyfodol. | Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2024. |
| Arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu | 11 | Ceisio adeiladu ar y cysylltiadau da presennol wrth agor rhai o'r mecanweithiau cyfathrebu arferol i bartneriaid argyfyngau sifil posibl. | Byddwn yn parhau i adeiladu ar y profiadau a'r cysylltiadau a ddatblygwyd yn ystod pandemig Covid er mwyn sicrhau bod mecanweithiau amlasiantaethol wedi'u sefydlu i bartneriaid ddod at ei gilydd i drafod problemau a pheryglon sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu â sectorau penodol (e.e. cartrefi gofal; addysg) a ddatblygodd yn ystod y pandemig, er mwyn sicrhau cyfathrebu dwy ffordd sy'n amserol, yn berthnasol ac yn effeithiol. | HPAG a'i is-grwpiau Grŵp Gweithredol a Pharoddrwydd Diogelu Iechyd (HPORG) Grŵp Rhannu Gwybodaeth am Glefydau Trosglwyddadwy (CDISG) Ymgysylltu â sectorau penodol (sector gofal, gweithwyr addysg proffesiynol) |
| | 12 | Sicrhau bod systemau cyfathrebu'n gallu gweithredu i bob cyfeiriad, nid un ffordd yn unig, er mwyn rhoi adborth a galluogi derbynwyr i ymgysylltu'n llawn. | Byddwn yn sicrhau bod y mecanweithiau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau (fel y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau | Mae llawer o'r gwasanaethau diogelu iechyd lleol yn gweithio'n rhagweithiol gyda chartrefi gofal i ddarparu cymorth ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Mae canllawiau i'r sector gofal wedi cael eu hadolygu ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a mesurau iechyd y cyhoedd ehangach mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol (PPE), canllawiau profi, ynysu |

| | | | | |
|--|--|--|---|--|
| | | | <p>Trosglwyddadwy yng Nghymru) wrth iddynt gael eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod y mecanweithiau hyn yn eglur ac yn cael eu profi.</p> <p>Byddwn yn datblygu map system ôl-bandemig a fydd yn cyd-fynd â'r rolau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifiwyd mewn ymateb i argymhelliad 3.</p> | <p>ac ymweld mewn perthynas ag amryw o Heintiau Anadlol Aciwt, megis Covid-19, y fflw a feirws syncytial anadlol (RSV), ar gyfer staff, preswylwyr ac ymwelwyr.</p> <p>Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn lechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG i nodi cyfleoedd i wella dealltwriaeth y cyhoedd a mynd i'r afael â phetruster a chamwybodaeth yn ymwneud â brechlynnau er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn brechiadau a lleihau bylchau tegwch brechu. Bydd dealltwriaeth ymddygiadol yn helpu i lywio'r gwaith hwn, a bydd effaith y gwaith yn cael ei fonitro'n ofalus, gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd i lywio'r dull gweithredu sy'n esblygu. Bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro trwy adroddiadau gwyliadwriaeth lechyd Cyhoeddus Cymru a thrwy gyfarfodydd monitro diogelu iechyd chwarterol gyda sefydliadau.</p> <p>Ar lefel y DU, mae trefniadau llywodraethu ar ôl y pandemig yn cynnwys Asiantaeth Diogelwch lechyd y DU newydd, ac mae Bwrdd Llywodraethau Datganoledig wedi'i sefydlu. Mae prosesau llywodraethu'r Fframwaith Cyffredin yn parhau i gael eu hymgorffori mewn statud, a chwblhawyd adolygiad gweithredol diweddar o Fframwaith Cyffredin Dros Dro Diogelu lechyd y Cyhoedd a Diogelwch lechyd, ac mae argymhellion i gryfhau ei fesurau llywodraethu, ei raglen waith a'i gwelededd yn mynd rhagddynt. Mae'r gwaith llywodraethu cyffredinol yn dwyn ynghyd DHSC, UKHSA, y Llywodraethau Datganoledig a'u tair asiantaeth iechyd cyhoeddus i oruchwylio rhaglen waith y Fframwaith Cyffredin y cytunwyd arni, er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol wrth helpu i gyflwyno Rheoliadau Diogelwch lechyd (Ymadael â'r UE) 2021, yn ogystal â chyflawni</p> |
|--|--|--|---|--|

| | | | | |
|---------------------|----|---|--|--|
| | | | | rhwymedigaethau ac ymrwymïadau rhyngwladol y DU yn ymwneud â rhannu data gwyliadwriaeth. |
| Deallusrwydd | 13 | Adolygu'r holl systemau data sy'n gweithredu ar hyn o bryd ac archwilio sut y gallant weithredu yn ôl safonau cyffredin y cytunwyd arnynt a sut y gellir eu cyfuno, o fewn cyfyngiadau mesurau diogelwch Diogelu Data, er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o gasglu data a chynyddu eu gwerth mewn gwaith gwyliadwriaeth genedlaethol a lleol. | <p>Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ochr yn ochr â Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i adolygu'r systemau digidol cyfredol ac i nodi gwelliannau, gan gynnwys unrhyw fylchau mewn deallusrwydd/gwyliadwriaeth y gellid eu llenwi ac unrhyw ddyblygu yn y system bresennol. Bydd angen i'r adolygiad ystyried rhwystrau rhag rhannu data a sut gellid goresgyn y rhain er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth rhwydd ac effeithlon.</p> <p>Dyrannwyd cyllid o'r gyllideb ymateb i Covid yn 2023/24 i archwilio sut gellir addasu systemau data fel y CRM a ddatblygwyd ar gyfer olrhain cysylltiadau achosion Covid-19 i gynorthwyo yn ein hymateb i fygythiadau yn y dyfodol mewn dull 'Unwaith i Gymru'.</p> | <p>Mae prosiect darganfod wedi dod i ben a oedd yn archwilio sut y gallwn ni ddatblygu'r systemau digidol a sefydlwyd i gynorthwyo'r ymateb i'r pandemig er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben yn y dyfodol.</p> <p>Mae proses darganfod digidol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi dod i ben yn ddiweddar. Roedd y broses darganfod yn asesu opsiynau ar gyfer gwredu'r trawsnewidiad brechu digidol a amlinellir yn y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, ac mae cyllid yn ei le i symud o ddarganfod i ddarparu system frechu effeithiol ac effeithlon, sy'n gweithio'n ddi-dor ar gyfer ymarferwyr a chleifion fel ei gilydd.</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyflwyno cynllun gwyliadwriaeth anadlol integredig, yn unol ag egwyddorion gwyliadwriaeth sydd wedi'u hargymhell gan Sefydliad Iechyd y Byd a Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop. Mae hyn yn ystyried feirws y pandemig SARS-CoV-2 ynghyd â phathogenau anadlol eraill ac mae'n asesu effaith y pathogenau hyn ar lefelau gwahanol, o achosion asymptomatig i achosion difrifol lle mae pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty.</p> <p>Mae'r wyliadwriaeth hon yn cynnwys sawl system a llwybr adrodd, ynghyd â microbioleg a genomeg arbenigol, ac mae'n gysylltiedig â data arall fel brechiadau a derbyniadau i ysbytai. Lle bynnag y bo modd, defnyddir data sy'n bodoli eisoes, wedi'i wella gan ddulliau cysylltu a gwyddor data.</p> |

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | <p>Mae gwaith wedi cael ei wneud i integreiddio adroddiadau gwyliadwriaeth ar wahân ar gyfer COVID-19 a'r fflw i greu cyfres integredig o allbynnau sy'n cwmpasu pob lefel o ddifrifoldeb clefyd a math o wylidwriaeth. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi dechrau datblygu casgliadau o adroddiadau sy'n canolbwyntio ar grwpiau poblogaeth penodol, ac mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar blant.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn crynodeb deongliadol wythnosol (gan gynnwys uchafbwyntiau o wylidwriaeth ryngwladol sydd ar gael), sy'n ymdrin â phwyntiau allweddol o bob system wylidwriaeth. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwyliadwriaeth sentinel gymunedol mewn practisau meddyg teulu a fferyllfeydd cymunedol. • Gwyliadwriaeth o Heintiau Anadlol Acíwt Difrifol (SARI) mewn ysbytai sy'n cwmpasu derbyniadau a gwelyau unedau gofal dwys sy'n cael eu defnyddio gan gleifion sydd â heintiau anadlol aciwt. • Data marwolaethau ar sail achosion penodol a phob achos tymhorol. • Adroddiadau dilyniannu/genomeg ar amrywiolion SARS-CoV-2 a grwpiau'r fflw. • Faint o bobl sy'n cael brechlyn ar gyfer COVID-19 a'r fflw. • Adroddiadau tegwch brechu yn ymwneud â rhaglen pigiad atgyfnerthu COVID-19 yn yr hydref. • Data ar achosion eraill o heintiau anadlol aciwt, fel streptococws Grŵp A, clwy'r pennau a phertwsis. • Yn ogystal â'r uchod, bydd prosesau gwyliadwriaeth/gwerthusiad manylach yn |
|--|--|--|--|---|

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | <p>cael eu cwblhau yn ymwneud ag effeithiolrwydd brechlynnau, RSV a baich clefydau anadlol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnal adolygiad o'i allbynnau gwyliadwriaeth, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â COVID-19 na fyddant yn cael eu darparu bellach, fel ystadegau marwolaethau COVID-19. Rydym yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwyliadwriaeth barhaus yn bodloni gofynion polisi wrth symud ymlaen.</p> <p>Er mwyn sicrhau dehongliad amserol a chywir o'n data gwyliadwriaeth, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i ddefnyddio gwybodaeth leol sy'n cael ei chasglu o'n rhwydweithiau proffesiynol sefydledig. Bydd nifer o grwpiau diogelu iechyd a diogelu'r cyhoedd amlddisgyblaethol cenedlaethol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i ystyried gwybodaeth leol a rhanbarthol.</p> <p>Mae gennym drefniadau monitro a goruchwylio o hyd er mwyn adolygu'r data gwyliadwriaeth a'r wybodaeth am feirysau anadlol. Mae hyn yn adeiladu ar y dull a fabwysiadwyd drwy gydol y pandemig i gyfuno ystod ehangach o dystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol o ddisgyblaethau gwahanol ochr yn ochr â gwybodaeth a gwyliadwriaeth leol.</p> <p>Ar sail pedair gwlad, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i ymgysylltu a chydweithio â gwaith ymchwil fel rhan o system CLIMB COVID, ac mae'n datblygu prosesau cydweithredu mewn perthynas â metagenomeg (mScape) a feirws syncytiol anadlol, ac mae'n aelod o is-grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd ar Genomeg.</p> |
|--|--|--|--|---|

| | | | | |
|--|-----------|--|---|---|
| <p>Sganio'r gorwel a rhagweld</p> | <p>14</p> | <p>Parhau a chryfhau cysylltiadau'r pedair gwlad a chysylltiadau rhyngwladol a'r byd academaidd, er mwyn gwella gwaith sganio'r gorwel, rhagweld digwyddiadau argyfwng a nodi anghenion ar gyfer gwella gwaith rheoli arferol.</p> | <p>Mae hyn yn cysylltu ag argymhelliad 10.</p> <p>Bydd y Prif Gyngorydd Gwyddonol ar Iechyd, drwy'r Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA), yn adeiladu ar ei gysylltiadau ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Chanolfan Dystiolaeth Covid-19 er mwyn cryfhau cysylltiadau â'r byd academaidd a phartneriaid ymchwil. Yn benodol, bydd SEA yn cydweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu strategaeth ymchwil wyddonol wedi'i halinio sy'n diwallu anghenion y rhaglen lywodraethu ac sy'n cefnogi gwaith i fynd i'r afael â bygythiadau a phroblemau yn y dyfodol.</p> <p>Mae gan SEA gysylltiadau academaidd cryf â Phrifysgolion Bangor a Chaerdydd eisoes drwy'r rhaglen monitro dŵr gwastraff. Mae cydweithredu ac ymchwil academaidd blaengar wedi helpu i lywio gwaith a chyfeiriad y rhaglen. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi arwain y gwaith o ddatblygu dulliau newydd o fonitro dŵr gwastraff, gan gynhyrchu nifer o bapurau a chyhoeddiadau academaidd.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae SEA yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe i ddarparu gwaith modelu Covid-19 a heintiau anadlol eraill gan fynd ati'r un pryd i adeiladu manyleb ar gyfer modelu mwy hirdymor a gofynion cyfrifiadurol ar gyfer digwyddiadau pandemig ac argyfyngau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd.</p> <p>Daw Prif Swyddogion Meddygol y pedair cenedl ynghyd yn rheolaidd i drafod digwyddiadau sy'n dod i'r amlwg a sganio'r gorwel, a rhennir data a gwybodaeth berthnasol.</p> | <p>Trwy ein partneriaid, yn enwedig Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn parhau i adolygu digwyddiadau newydd posibl yng Nghymru ac yn cyfuno hyn â gwybodaeth gan UKHSA i lywio ein gwaith sganio'r gorwel. Cefnogir hyn gan gyfarfodydd wythnosol penodedig rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a Swyddfa'r Prif FIlfeddyg i drafod milheintiau, adroddiadau sganio'r gorwel bob pythefnos ar heintiau Gastro / heintiau sy'n dod i'r amlwg / milheintiau, yn ogystal â chyfarfod sganio'r gorwel bob mis ar gyfer amrywiolion newydd a phathogenau newydd.</p> <p>Gyda UKHSA, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cymryd rhan mewn grwpiau technegol rheolaidd i drafod digwyddiadau presennol neu ddiweddar, er enghraifft yr achosion diweddar o fflw adar a fflw moch. Hefyd, mae'n aelod o HAIR ar gyfer bygythiadau milheintiol, sy'n datblygu perthynas waith agos â thîm TARZAT i gyfrannu at ddadansoddiad genomig, ac mae'n gweithio gydag UKHSA i adolygu'r cynllun ymateb i bandemig 2011 a chyfarfodydd Mosaic (argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd) ym mis Ebrill.</p> <p>Ar lefel rhyngwladol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyfrannu at wylidwriaeth anadlol Sefydliad Iechyd y Byd trwy ddarparu data ac arbenigedd gwylidwriaeth o'r uned firoleg arbenigol, a gwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar frechu teg. Hefyd, mae'r labordy yng Nghaerdydd yn rhan ffurfiol o rwydwaith GISRS ar gyfer cadw gwylidwriaeth fyd-eang ar heintiau anadlol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnal cyfarfodydd bob pythefnos o'r rwydwaith byd-eang yn ystod</p> |
|--|-----------|--|---|---|

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | <p>tymor y fflw, a chyfarfodydd bob mis y tu allan i'r tymor. Yn ogystal, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyfrannu'n weithredol at Gynghrair Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Epidemioleg Genomig, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer gorau ym maes epidemioleg genomig, ac mae gwaith yn dechrau gyda Rhwydwaith Gwylidwriaeth Pathogenau Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd – rhwydwaith genomeg/biowybodeg sydd wedi'i sefydlu fel rhan o Hyb Pandemig Sefydliad Iechyd y Byd.</p> <p>Rydym yn datblygu dull hirdymor o gadw gwylidwriaeth ar ddŵr gwastraff er mwyn integreiddio'r dechnoleg i'r system wylidwriaeth iechyd cyhoeddus integredig; mae hyn yn cynnwys gweithio'n gynhyrchiol gyda'n partneriaid academiaidd o Ganolfan Ymchwil Dŵr Gwastraff Cymru a'n partneriaid ar draws y pedair gwlad. Mae ein dull gweithredu partneriaeth presennol eisoes wedi sefydlu canolfan newydd ar gyfer hyfforddiant doethurol, a sefydlwyd i hyfforddi a datblygu platform academiaidd yn benodol ar gyfer monitro dŵr gwastraff, gan feithrin y sgiliau academiaidd sydd eu hangen i ymateb i'r heriau gwyddonol o ddefnyddio'r dechnoleg hon mewn lleoliad iechyd y cyhoedd. Bydd y Ganolfan ar gael i ddechrau ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerfaddon, a bydd yn cefnogi tua 12 ysgoloriaeth ymchwil PhD yng Nghymru.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu Prifysgol Abertawe i ymgymryd â Rhagamcanion Tymor Canolig a Hirdymor ar gyfer Covid-19 a phathogenau eraill, fel Fflw Adar, ac mae SEA wedi datblygu rhagamcanion tymor byr. Mae'r rhagamcanion hyn yn dylanwadu ar waith</p> |
|--|--|--|--|--|

| | | | | |
|--|--|--|--|---|
| | | | | <p>cynllunio a pharodrwydd y GIG, yn enwedig yn ystod cyfnod y Gaeaf.</p> <p>Rydym yn archwilio opsiynau i ddefnyddio data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) ar gyfer dadansoddiadau penodol, ac rydym wedi sicrhau cofrestrriad i'r adnodd ar gyfer ein dadansoddwyr SEA. Rydym yn cysylltu'n agos â chydweithwyr yn Ymchwil Data Gweinyddol (ADR) Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) i ddatblygu cynigion ar gyfer gwaith ymchwil i'w gwblhau oddi mewn i SAIL. Noder nad yw SAIL yn gwneud gwaith gwyliadwriaeth na monitro oherwydd yr amser sydd ei angen i amlyncu data i'r cyfleuster.</p> <p>Mae rôl y Grŵp Cyngori Technegol (TAG) wrth hwyluso cyswllt ac ymgysylltu rhwng y byd academaidd a swyddogion polisi'n parhau i gael ei harchwilio; mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus i ddatblygu TAG newydd sy'n cyd-fynd â Chodau Ymarfer Llywodraeth y DU ar gyfer Pwyllgorau a Chynghorau Cyngori ar Wyddoniaeth.</p> <p>Mae gwaith wedi mynd rhagddo hefyd i ddeall rôl y pwyllgorau cyngori proffesiynol ar thema gwyddoniaeth a thystiolaeth mewn polisi iechyd, sy'n cynnwys rôl Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru (WSAC) a'r Cydbwyllgor Cyngori Proffesiynol Cenedlaethol (NJPAC). Mae'r pwyllgorau cyngori proffesiynol hyn wedi'u sefydlu o dan Ddeddf y GIG (Cymru) ac maent yn wahanol i bwyllgorau academyddion sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor gwyddonol ac ymchwil mwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r naill a'r llall yn gwneud gwaith hanfodol wrth wella'r defnydd o brosesau sganio'r gorwel.</p> |
|--|--|--|--|---|

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | <p>O safbwynt gwella cysylltiadau rhyngwladol, mae perthynas rhannu gwybodaeth wedi'i sefydlu gyda Phrif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Seland Newydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod Seland Newydd wedi llwyddo yn ei defnydd o wyddoniaeth, gwaith ymchwil a thystiolaeth yn ystod pandemig Covid-19, felly gallai'r berthynas hon fod yn hanfodol wrth wella'r defnydd o ddulliau o'r fath yng Nghymru.</p> <p>Trwy arsylwyr Cymru ac aelodaeth gyfetholedig o'r JCVI, rydym yn parhau i gael gwybod am frechiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn erbyn clefydau heintus; mae hyn yn bwysig er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae'r adran SEA yn parhau i gynhyrchu a chyfrannu at gyfnodolion academiaidd, yn ogystal â gweithio'n agos gyda CCAUC/CTER ar sut y gellir gwella'r broses o gredydu gwaith ymchwil a thystiolaeth a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn ôl i'r gymuned academiaidd i'w defnyddio mewn astudiaethau effaith ac ati.</p> <p>Mae'r byd academiaidd wedi gwneud gwaith rhagweithiol trwy gychwyn gweithdai ar Iechyd Cyfunol sy'n cynnwys aelodau o randdeiliaid gwahanol: y byd academiaidd, y sector cyhoeddus, y sector elusennol, y GIG a gofal iechyd, gwleidyddion a sefydliadau amgylcheddol er mwyn ceisio deall y cysylltiadau rhwng iechyd pobl, iechyd anifeiliaid ac iechyd yr amgylchedd. Roedd y gweithdai'n archwilio rhwystrau i Iechyd Cyfunol: cyfathrebu, datblygu ymddiriedaeth, mynd i'r afael â systemau a biwrocratiaeth, cystadleuaeth, anghydbwysedd wrth gasglu a rhannu data, dynameg pŵer, sgysiau anghyfforddus a meddwl am sut i fesur newid cynaliadwy ar lefel unigol, sefydliadol a system.</p> |
|--|--|--|--|--|

| | | | | |
|----|--|--|--|--|
| | | | | <p>Gwnaed cysylltiadau â gwaith y Ganolfan Milfeddygaeth newydd hefyd.</p> <p>Er mwyn cryfhau ein gallu gwyliadwriaeth a'n systemau rhybuddio cynnar ar draws y sbectrwm lechyd Cyfunol o iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy is-grŵp lechyd Cyfunol HPAG, ac yn cyfrannu at Strategaeth Diogelwch Biolegol (BSS) y DU, gan gynnwys cyfrannu at Gonsortwm Fforensig Microbaidd y DU trwy lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Rhwydwaith Biowliadwriaeth Cenedlaethol (NBN).</p> <p>Hefyd, mae mwy o waith yn cael ei wneud gyda'r byd academiaidd ar achosion o glefydau'n cael eu trosglwyddo rhwng rhywogaethau a'r effaith ar ofod 'un byd'. Hefyd, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i sgrinio dyfrgwn fel rhan o'r prosiect dyfrgwn ar gyfer y fflw a SARS-CoV-2, ac mae'r gwaith hwn yn unigryw yn y DU.</p> |
| 15 | <p>Ceisio sicrhau bod y boblogaeth mor iach â phosibl, ac felly mor wydn â phosibl, drwy fentrau iechyd a lles ac adfer gwasanaethau'r GIG a Diogelu'r Cyhoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan Covid.</p> | <p>Gweler yr ymateb i argymhelliad 1</p> <p>Gwnaed buddsoddiad ychwanegol i gefnogi'r gwaith o adfer gwasanaethau diogelu iechyd allweddol, fel sgrinio, ac mae cynlluniau adfer yn parhau i gael eu darparu.</p> <p>Bydd momentwm yn cael ei gynnal yn ôl y prif ffactorau sy'n pennu iechyd, yn enwedig ysmegu a gordewdra, gyda chynlluniau cyflawni a buddsoddiad cysylltiedig ar waith ar gyfer y naill a'r llall. Yn ehangach, mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi camau gweithredu trawslywodraethol i gefnogi iechyd a lles, a bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy ddangosyddion cenedlaethol ar ddisgwyliad oes iach.</p> | <p>Mae cyllid adfer wedi'i ddarparu i lechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi galluogi adferiad yr holl raglenni sgrinio erbyn Ch2 2024. Yr eithriad yw Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) sy'n destun gwaith i drawsnewid y rhaglen i fynd i'r afael â'r galw cynyddol. Nod yr holl waith gwella yw cynyddu a chynnal capasiti er mwyn sicrhau bod DESW yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer cyfranogwyr.</p> <p>Mae cynnydd yn cael ei wneud o safbwynt lleihau'r defnydd o dybaco, ac mae'r data diweddaraf ar gael o 2022 yn dangos bod 13% o oedolion Cymru'n ysmegu, o'i gymharu â 19% yn 2015. Nid yw lefelau gordewdra'n gostwng, ond mae'r data diweddaraf gan y Rhaglen Mesur Plant yn dangos bod y cynnydd sylweddol mewn</p> | |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | gordewdra ymhlith plant a gofnodwyd yn ystod y pandemig wedi cyrraedd ei benllanw. |
|--|--|--|--|--|